
# PROFIADAU A WNAED YN SIR FYNWY:

Cynllun Rheoli Cyrchfannau Sir Fynwy

2025—2030





*Her east-west flanks, one dark, one sunlit,*
*her vernacular of borders.*

*Her weight, the unspoken words*
*of an unlearned tongue.*

Owen Sheers — Skirrid Fawr, 2005

**Golygfa o'r Ysgyryd.**
*Molyneux Associates Photography.*



# CYNNWYS


06 Crynodeb Gweithredol
08 Cynllun ar Dudalen

12 Rhan 1: Cyflwyno'r Cefndir
14 Cyflwyniad
18 Cyd-destun
36 Arfer Gorau Rhyngwladol

38 Rhan 2: Y Cynllun
39 Diben, Uchelgais 2030, Nod
40 Amcanion
42 Marchnadoedd Twf
46 Cynnig
47 Sbardunau
48 Blaenoriaethau
59 Galluogwyr


**Clawr:**
Tân gwersyll yn Hidden Valley Yurts.
*Callum Baker.*

**Dylunio gan:**
Height Studio



# antur naturiol

Cafodd ein amgylchedd naturiol eithriadol ei wneud ar gyfer anturiaethau hygyrch: man i ddilyn Afon Gwy ac Afon Wysg ar droed ac ar ddŵr. Man cychwyn cerdded ym Mannau Brycheiniog, nofio gwyllt mewn pyllau a llynnoedd, adara ar Wastadeddau Gwent a phadlfyrddio ar Lyn Llandegfedd. Mae’n hanfodol ein bod yn ei hyrwyddo – er mwyn ei ddiogelu.

**Llyn Cipar.**
*Shutterstock.com*

## CRYNODEB GWEITHREDOL

Cafodd Cynllun Rheoli Cyrchfannau Sir Fynwy ei seilio ar ymchwil fanwl a'i gynhyrchu ar y cyd ag ystod eang o bartneriaid lleol a chenedlaethol. Mae'n gosod cyfeiriad clir ar gyfer y dyfodol yn ogystal ag uchelgais a map ar gyfer datblygu economi ymwelwyr o fewn y sir hyd at 2030.

Sir Fynwy yw man geni twristiaeth ym Mhrydain, a nawr rydym eisiau llunio ei dyfodol. Y diben sylfaenol: dod yn lasbrint ar gyfer cenhedlaeth newydd o gyrchfannau gwledig adfywiol. A'r lle mwyaf ysbrydoledig, cysylltiedig a chroesawgar yng Nghymru i aros, buddsoddi a byw ynddo.

**Rydym eisiau cyflawni tair blaenoriaeth strategol i helpu gwireddu hynny.**
Maent i gyd yn cefnogi nodau economaidd-gymdeithasol ehangach Cyngor Sir Fynwy ac yn gydnaws gyda nodau twristiaeth a chenedlaethau'r dyfodol Llywodraeth Cymru.
**Ein nod drwy'r cynllun hyn yw:**

1. **Adfywio trefi a phentrefi llawn cymeriad y sir drwy dwristiaeth ansawdd uchel.**
2. **Ailgynnau ein tirweddau naturiol gyda gweithgaredd ac antur, mewn ffyrdd sensitif a chreadigol.**
3. **Datblygu profiadau llawn dychymyg gyda naws neilltuol am le sy'n cyfoethogi ansawdd bywyd.**

I gyd yn sbardun i frand lle mwy bywiog ac ifanc.

Cyflenwir fel rhan o agenda ehangach ar gyfer adfywio a chreu lle a drwy gydweithredu eang, arloesi rhagweithiol a rheoli gofalus gobeithiwn y bydd y Cynllun yn ailddiffinio ac adfywio'r gornel hynafol hon o Gymru ar gyfer y dyfodol.

Dod ag ysbrydoliaeth newydd i genhedlaeth newydd.

Gyferbyn:
**Pont Hafren.**
*Kiran Ridley.*





# GADEWCH I NI ADFYWIO'R GORNEL HYNAFOL HON O GYMRU AR GYFER Y DYFODOL.

**SIR FYNWY AR GYFER CENEDLAETHAU'R DYFODOL.**

Diben y Cynllun Rheoli Cyrchfannau hwn yw cefnogi gweledigaeth Cyngor Sir Fynwy o sicrhau fod ein 'cymunedau yn gynaliadwy yn gymdeithasol ac yn economaidd drwy ddenu a chadw pobl iau i adfer cydbwysedd yn ein demograffig heneiddiol.' Bu hyn yn sbardun i ffocws y Cynllun Rheoli Cyrchfannau ar adfywio ein trefi a'n tirweddau; ar ddatblygu profiadau mwy deinamig ar gyfer cenedlaethau newydd; ac ar esblygu'r brand cyrchfan neu le yn raddol fel ei fod yn sicrhau lle cadarn i Sir Fynwy fel lle sy'n ysbrydoli a pherthnasol i aros, buddsoddi a byw ynddo.



Golygfa o Nyth yr Eryr yn Nyffryn Gwy.
*James Harries Multimedia.*



# CYNLLUN AR DUDALEN

**Dyma grynodeb un-dudalen o'r Cynllun manwl sy'n dilyn:**

## Diben

Sir Fynwy yw man geni twristiaeth ym Mhrydain a nawr rydym yn llunio ei dyfodol.
**Ein diben sylfaenol:** dod yn lasbrint ar gyfer y genhedlaeth nesaf o gyrchfannau gwledig adfywiol. Y lle sy'n ysbrydoli mwyaf, sydd â'r cysylltiadau gorau a mwyaf croesawgar yng Nghymru i aros, buddsoddi a byw ynddo.

## Uchelgais 2030

Erbyn 2030 rydym eisiau bod yn brif gyrchfan wledig Cymru. Lle o brofiadau dychmygus a lleoedd llawn cymeriad i fwyta, yfed ac aros ynddynt – cyfoethog mewn naws am le. Byddwn yn dathlu egni creadigol Sir Fynwy: gan annog y genhedlaeth nesaf i gael eu hysbrydoli, cymryd rhan a llunio'r dyfodol.

## Nod

Byddwn yn dod ag egni i'n stryd fawr, antur i'n tirweddau a hyder i'n cymunedau drwy fwy o dwristiaeth a thwristiaeth well sy'n dathlu a chyfoethogi ansawdd ein bywydau.

## Amcanion

| **Twf economaidd** | **Gwell seilwaith** | **Diwylliant bywiog** | **Profiadau gwell** | **Diogelu'r amgylchedd** |
|---|---|---|---|---|
| Twf economaidd. Mwy o fuddsoddiad sector preifat. | Ymdeimlad o gyrraedd. Sylfeini gwell. | Cyfranogiad cymunedol. Mwy o falchder dinesig. | Profiadau unigryw. Lleoedd rhagorol i aros ynddynt. | Gwella ymwybyddiaeth ac ymddygiad ymwelwyr. Defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. |

**Bodlonrwydd ymwelwyr, busnesau a phreswylwyr gyda thwristiaeth.**

## Marchnadoedd twf y dyfodol: Marchnadoedd ehangach yn y Deyrnas Unedig a rhyngwladol

| | | |
|---|---|---|
| **Preswylwyr lleol,** yn cynnwys teuluoedd a phobl ifanc. | **Chwilwyr annibynnol o fewn 2 awr** – annog arosiadau hirach. | **Marchnadoedd ymwelwyr newydd o bob rhan o'r DU a thu hwnt,** yn cynnwys carfannau iau. |

**Marchnadoedd diddordeb arbennig:**
Gweithgareddau Awyr Agored; Marchogaeth; Gerddi; Priodasau; Corfforaethol.

## Cynnig

**Profiadau a wnaed yn Sir Fynwy sy'n unigryw o leol, ond yn rhyngwladol mewn ansawdd.**

| **Cymunedau bywiog** | **Antur naturiol** | **Diwylliant sy'n ysbrydoli** |
|---|---|---|

Ysbryd creadigol – lle sy'n ysbrydoli.

## Sbardunau

| **Sefyll allan** | **Aros** | **Naws am Le** |
|---|---|---|

## Blaenoriaethau

| | | |
|---|---|---|
| **Lleoedd Bywiog.** Creu lle integredig. Gwell sylfeini – yn cynnwys cysylltedd. Treftadaeth ddiwylliannol fyw. | **Tirluniau egnïol ar gyfer ffyrdd iach o fyw.** Sir cerdded a seiclo. Sector gweithgareddau wedi ei hybu. Hyrwyddo twristiaeth gyfrifol. | **Profiadau sy'n cyfoethogi.** Profiadau a digwyddiadau a wnaed yn Sir Fynwy. Llety safon uchel. Arddangos cynnyrch lleol. |

## Galluogwyr

| **Marchnata brand** | **Strwythurau cefnogi cryf** | **Cyflenwi cynaliadwy a chynhwysol** |
|---|---|---|

Creadigrwydd a gwreiddioldeb



# diwylliant sy'n ysbrydoli

Dyma'r sir a ysbrydolodd y wisg Gymreig, gerddi ac artistiaid rhamantus gorau'r byd, sêr roc byd-eang, a sêr drama Netflix, Sex Education. Mae'r ysbryd creadigol hwnnw yn dod â sbarc i'n cymunedau ac i'n profiadau.

Sex Education Tymor 3.
*Sam Taylor/Netflix.*

# RHAN 1:
# CYFLWYNO'R CEFNDIR




Y Cymin, Trefynwy.
*© Hawlfraint y Goron.*

## BYDD AILDDYFEISIO PARHAUS YN EIN GWNEUD YN FWY CYSTADLEUOL AC YN FWY PERTHNASOL.

## CYFLWYNIAD

Yn y ddeunawfed ganrif, daeth Taith Gwy y daith wyliau gyntaf i gael ei threfnu ym Mhrydain. Roedd taith mewn cwch i lawr yr afon o'r Rhosan ar Wy i Gas-gwent yn rhoi ymweliadau i 'dwristiaid' i fannau i weld golygfeydd, olion ar lan yr afon a bwytai ansawdd uchel. Fe ddenodd y profiad rai o feirdd ac arlunwyr amlycaf y byd i greu celf ddiweddaraf y cyfnod: ac mae'r ardal yn parhau i ysbrydoli sêr roc ac awduron ffilmiau heddiw. Mae cartref Abaty Tyndyrn hefyd yn gartref i Otis ac Eric o Sex Education, un o raglenni mwyaf poblogaidd Netflix.

Disgrifiwyd Sir Fynwy fel man geni twristiaeth ym Mhrydain. Ac yn yr unfed ganrif ar hugain, mae Taith Gwy yn cynnig glasbrint i ni ar gyfer math newydd o dwristiaeth wledig Gymreig ar gyfer y dyfodol. Mae Sir Fynwy yn gyrchfan twristiaeth aeddfed: mae ei hafonydd yn plethu drwy rai o brif dirweddau dynodedig Cymru; canrifoedd o dreftadaeth; a gororau diwylliannol neilltuol.

Ond gydag aeddfedrwydd daw risg o orffwys ar ein rhwyfau, tra bod yn rhaid i Sir Fynwy, fel pob man arall, ailddyfeisio ei hun yn barhaus i barhau'n gystadleuol mewn marchnad fyd-eang. Yn bwysicach, efallai, mae angen i'r sir hynafol hon sicrhau ei bod yn teimlo'n fywiog a pherthnasol i'w phobl ifanc ei hun.

Felly mae'r Cynllun Rheoli Cyrchfan yn anelu i ddod â bywyd newydd i gryfderau cynhenid Sir Fynwy fel cyrchfan a bod ag agwedd adfywio at dwristiaeth, yn seiliedig ar brofiadau dilys, gyda'u gwreiddiau yn ein trefi a phentrefi a'r tirweddau o'u hamgylch. Profiadau a wnaed yn Sir Fynwy: sy'n ailddeffro cymunedau ac yn ysbrydoli creadigrwydd a chyfle ar gyfer cenhedlaeth newydd.



**Gyferbyn:**
**Cored Newydd gan Anne Rushout (1802).**
*Treftadaeth MonLife.*

# diwrnodau mwyaf




Rydym yn gartref i safleoedd godidog ar gyfer diwrnod mwyaf eich bywyd: cestyll, gerddi a lleoliadau pwrpasol gydag naws sant – tebyg i Dŷ Sant Ffraed a Tŷ Sant Tewdric.

**Tŷ Sant Ffraed.**
*Marc Smith Photography.*

# CEFNDIR

Mae gan dwristiaeth ran hanfodol yn economi a ffordd o fyw Sir Fynwy. Mae wedi tyfu yn gyson dros y degawd diwethaf, gan berfformio'n well na chyrchfannau cyfagos. Mae'n debyg y bu 2024 a dechrau 2025 yn fwy heriol, ond mae'n amlwg fod cyfle ar gyfer twf parhaus.

Mae ymchwil yn cadarnhau cryfderau craidd yr ardal: tirweddau godidog, treftadaeth gyfoethog, trefi marchnad bywiog a chynnyrch lleol ardderchog. Mae Sir Fynwy yn gyfleus iawn ar gyfer marchnad ymwelwyr dros nos y Deyrnas Unedig. Mae Astudiaethau Galw Marchnad Croeso Cymru yn dangos diddordeb cryf mewn profiadau y mae'r sir yn rhagori arnynt eisoes – cerdded, diwylliant a bwyd.

Mae gan Sir Fynwy ddiwydiant twristiaeth aeddfed, potensial cudd ac apêl marchnad gwirioneddol.

Mae preswylwyr lleol yn cytuno. Mae cymunedau yma yn groesawgar ac yn optimistig am rôl twristiaeth wrth wella'r amgylchedd, trefi ac ansawdd bywyd.

Mae'r sir mewn lle da i hyrwyddo ymagwedd gytbwys a blaengar at dwristiaeth – un sy'n sicrhau buddion economaidd ar unwaith, yn hybu sectorau cyfagos, yn cefnogi seilwaith hanfodol, yn cyfoethogi bywyd bob dydd ac yn meithrin balchder lleol.

I gyflawni hyn i gyd bydd angen arweinyddiaeth glir a chydlynu i reoli risgiau ac effeithiau a allai fod yn negyddol, ac i wneud cyfraniad mor gadarnhaol ac adfywiol ag sydd modd i'r ardal leol.

Mae'n rhaid i bwysau twristiaeth ar rai cyrchfannau poblogaidd gael eu deall, eu mapio a'u trin yn well drwy'r Cynllun newydd. Gyda phryderon parhaus am ansawdd Afon Gwy ac Afon Wysg, mae'n rhaid i effeithiau twristiaeth ar yr amgylchedd gael eu monitro'n agos. Dylid gostwng pwysau ar safleoedd sensitif a dosbarthu buddion yn fwy cyfartal ar draws y sir. Dylai effaith cymdeithasol y sector ar argaeledd tai, gwasanaethau lleol a seilwaith gael ei adolygu a'i drin drwy bolisïau tryloyw sydd wedi eu strwythuro. Yn hollbwysig, mae'n rhaid i gymunedau lleol barhau i deimlo perchnogaeth a rheolaeth dros dwristiaeth a'i ddylanwad.

**Mae'r Cynllun hwn yn rhoi fframwaith clir a hyderus i ddatblygu'r economi ymwelwyr a'i reoli'n ofalus, gan sicrhau ei fod yn sicrhau gwerth parhaus i'n pobl, lleoedd a ffordd o fyw.**



Gyferbyn:
**Abseilio yn Nyffryn Gwy.**
*Cyngor Sir Fynwy.*

# AR GYFER PWY MAE'R CYNLLUN HWN?

Comisiynwyd y Cynllun hwn gan Gyngor Sir Fynwy ond cafodd ei gynllunio i roi cyfeiriad cyffredin ar gyfer pob sefydliad cyhoeddus, sefydliad preifat a sefydliad trydydd sector sydd â diddordeb mewn meithrin twristiaeth i ddod â buddion cadarnhaol i'n cymunedau.

Cafodd y Cynllun ei gynhyrchu yng nghyd-destun hinsawdd economaidd eithriadol o heriol. Felly er ei fod yn falch o fod yn uchelgeisiol, mae hefyd yn cynnwys nifer o brosiectau enillion cyflym. Fel pob Cynllun Rheoli Cyrchfannau, mae'n amlinellu gweithgareddau a gaiff eu hariannu a hefyd rai na chaiff eu hariannu. Ni chaiff popeth ei gyflawni ar unwaith, ond mae'r Cynllun yn ein galluogi i flaenoriaethu cynlluniau a buddsoddiadau ar gyfer y dyfodol.

---

Bydd y Cyngor yn cefnogi'r Cynllun mewn dwy ffordd:

**1**

Bydd tîm twristiaeth bach ond ymroddedig Cyngor Sir Fynwy yn cydlynu a goruchwylio cyflenwi'r Cynllun drwy'r Bartneriaeth Rheoli Cyrchfannau. Byddant yn canolbwyntio ar ffurfio perthynas sy'n trawsnewid gyda'r sector preifat, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector, gan greu amgylchedd cyfeillgar i dwf ac arwain marchnata cyrchfannau.

**2**

Bydd Cyngor Sir Fynwy hefyd yn cymryd ymagwedd traws-awdurdod at gyflawni blaenoriaethau allweddol y Cynllun, gan ddefnyddio'r holl liferau sydd ar gael iddo mewn modd pwrpasol, o bolisi i gynllunio a chreu lle, er mwyn cyflawni amcanion y Cynllun. Bydd angen cydweithredu ar draws adrannau i sicrhau newid, gyda thîm twristiaeth arbenigol y Cyngor ar flaen y gad.

**Mae'r Cynllun Rheoli Cyrchfannau yn gydnaws gyda pholisïau allweddol Cyngor Sir Fynwy yn cynnwys y Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol, Cynllun Datblygu Lleol Newydd 2018-2033 a Strategaeth Economi, Cyflogaeth a Sgiliau Sir Fynwy. Rhoddwyd ystyriaeth hefyd i wahanol gynlluniau creu lle.**

**Ond rôl y Cyngor yw hwylusydd a galluogydd. Mae'r Cynllun yn y pen draw yn dibynnu ar y sector preifat a'r trydydd sector i'w wireddu. Mae'n Gynllun i bawb ohonom.**

**Adeiladwyd y Cynllun hwn ar gydweithredu pwrpasol. I sefyll allan a chystadlu mewn marchnad sy'n newid yn barhaus, mae angen i ni weithio gyda'n gilydd fel erioed o'r blaen i greu profiadau sy'n gwneud argraff ac sy'n ysbrydoli ymwelwyr a phobl leol fel ei gilydd.**

Gyferbyn:
**Y Wledd Fawr yng Nghastell Cil-y-coed.**
*Huw John Photography Caerdydd.*





**ARDOLL YMWELWYR**

Gallai'r posibilrwydd o gyflwyno ardoll ymwelwyr o 2027 ymlaen efallai gefnogi cyflenwi'r Cynllun hwn. Fodd bynnag mae ystod eang o ystyriaethau a chynhelir ymgynghoriad llawn gyda rhanddeiliaid allweddol fel rhan o'r broses benderfynu.

Cynhelir Adolygiad Effaith Polisi i ddeall effaith ystod eang o bolisïau sy'n berthnasol i'r sector fel rhan o'r broses hon.

# PERFFORMIAD CYFREDOL

Bu twf cryf a chyson mewn twristiaeth yn Sir Fynwy dros y deg mlynedd ddiwethaf. Bu 2024 a dechrau 2025 yn fwy heriol i'r sector ar draws y Deyrnas Unedig ond mae twf wedi parhau yn Sir Fynwy yn 2024 er ar raddfa is. Fel cyrchfan sefydlog, hygyrch a safon uchel, mae lle i fod yn optimistig tra hefyd fod yn bragmataidd am y dyfodol.

1

Yn 2024, croesawodd Sir Fynwy **2.28m o ymwelwyr** yn cynnwys **0.61m** o ymwelwyr dros nos: **daw 78% o werth economaidd twristiaeth yn y sir o dwristiaid dros nos**.

2

Cyfrannodd y sector **£352m i economi'r ardal yn 2024**. Ers 2015 cafodd twf ei hybu gan gynnydd mewn llety heb wasanaeth, yn cynnwys cynnydd o 121% mewn darpariaeth hunanarlwyo. Yn 2024 fe wnaeth adferiad yn y sector â gwasanaeth yn Sir Fynwy helpu i gynnal twf economaidd. Daw'r rhan fwyaf o'r effaith economaidd uniongyrchol o lety, gyda bwyd a diod yn dilyn.

3

Bu **cynnydd o 28% mewn gwir dermau yng ngwerth twristiaeth ers 2015**. Mae Sir Fynwy wedi adfer o'r pandemig ynghynt na rhannau eraill o ranbarth De Ddwyrain Cymru ac mae wedi perfformio'n sylweddol well na lefelau twf ar draws y rhanbarth yn yr un cyfnod.

4

Mae'r diwydiant yn cefnogi **15% o swyddi yn Sir Fynwy** – mwy os na chaiff swyddi sector cyhoeddus eu cyfrif – gan ei wneud yn sector cyflogaeth allweddol.

5

Mae patrymau tymhorol cryf yn dal i fodoli mewn galw twristiaeth. **Mae lefelau defnydd yn amrywio o 62%-85% ar gyfer darpariaeth â gwasanaeth**. Roedd defnydd cyfartalog yn y sector hunanarlwyo mor isel â 51% yn 2024.

6

Er y gwelodd Sir Fynwy dwf cyson mewn gwerth twristiaeth yn y degawd diwethaf **mae potensial sylweddol yn dal i fod ar gyfer twf pellach**, yn arbennnig tu allan i'r prif dymhorau brig fel y nodwd yn flaenorol.

7

**Mae bodlonrwydd ymwelwyr gyda'r ardal yn uchel** ar 8.79/10. Mae 91.5% yn 'debygol iawn' o ddychwelyd yn yr ychydig flynyddoedd nesaf: mae ymwelwyr, preswylwyr a busnesau hefyd yn fodlon iawn gydag ansawdd cynnig cynhenid yr ardal – ei threfi a'i phentrefi, tirweddau ac yn y blaen.

8

**Mae cymunedau lleol yn gadarnhaol** am gyfraniad posibl twristiaeth i amgylchedd, cymdeithas a diwylliant yr ardal.

**Ffynonellau:** *STEAM, Arolygon Ymwelwyr a Chymunedau.*



**Y ffocws:**

# MWY O DWRISTIAETH. GWELL TWRISTIAETH. YMWELWYR SY'N AROS DROS NOS DRWY GYDOL Y FLWYDDYN.

**£352M**
EFFAITH ECONOMAIDD

**28%**
TWF ERS 2015

**78%**
O EFFAITH ECONOMAIDD YN DOD O YMWELWYR SY'N AROS DROS NOS.

# iechyd da




Sir Fynwy yw canolbwynt bwyd a diod Cymru. Yn gartref i'w gŵyl fwyd fwyaf eiconig, bwytai Michelin a'r 'gwesty gorau yn y Deyrnas Unedig ar gyfer bwyd-garwyr', Gwesty'r Angel.
A chodwch wydr i gynhyrchwyr lleol mewn cyfleoedd blasu, gwin, jin, cwrw a medd lleol mewn gwinllannoedd a distyllfeydd ac ystafelloedd tap fel Gwinllan White Castle, Distyllfa Silver Circle a Hive Mind Mead & Brew Co.

Distyllfa Silver Circle.

# Y CYNNYRCH A GYNIGIWN

Mae cyfraniad twristiaeth at economi Sir Fynwy wedi tyfu'n sylweddol ers 2015. Er y bu buddsoddiad wedi ei dargedu, yn arbennig yn y Fenni a'r cylch, cafodd llawer o'r twf ei sbarduno gan gynnydd sylweddol mewn llety heb wasanaeth, yn arbennig mewn opsiynau hunanarlwyo graddfa-fach. Fel canlyniad, mae naratif cyffredinol y cynnig cyrchfan wedi parhau'n gymharol yn ei unfan. Mae sicrhau fod y cynnig cynnyrch yn aros yn berthnasol i'r cynulleidfaoedd targed a ddynodwyd yn hanfodol ar gyfer gallu cystadleuol yr ardal yn y dyfodol. Ystyriaethau am y cynnyrch a gynigir ar hyn o bryd:

**Trefi marchnad a phentrefi lliwgar a llawn cymeriad**
Mae gwir falchder yn nhrefi marchnad yr ardal ac mae pob tref yn cynnig potensial sylweddol am dwristiaeth, nad yw weithiau wedi ei gyffwrdd hyd yma. Mae ganddynt hanes cyfoethog a chymeriad cynhenid, a rhai atyniadau treftadaeth eiconig. Mae gan droi trefi yn 'hybiau' bywiog, neilltuol ond gyda chysylltiad rhyngddynt, y potensial i gynyddu gwariant gan ymwelwyr gan roi budd i breswylwyr.

**Awyr agored anhygoel**
Mae'r rhan fwyaf o ymwelwyr yn edrych am ffyrdd hygyrch i brofi'r amgylchedd ac mae'r ardal mewn sefyllfa dda i apelio at y gynulleidfa fawr yma. Cerdded yw'r prif weithgaredd mae ymwelwyr yn ei fwynhau pan fyddant yn yr ardal, ond mae angen buddsoddiad ac arloesi parhaus, gan ddathlu, cynnal ac adeiladu ar rwydwaith presennol Sir Fynwy o lwybrau eiconig. Mae cyfle hefyd i ail-gysylltu gyda darparwyr gweithgareddau i gryfhau'r cysylltiadau rhwng y trefi marchnad a'r tirweddau o amgylch drwy brofiadau rhwydd eu harchebu ymlaen llaw, yn cynnwys ar hyd Camlas Sir Fynwy ac Aberhonddu. Yn olaf, mae'r ardal yn brin o gynnyrch antur ac adrenalin newydd ac arloesol a fyddai – o'u cyflwyno mewn ffyrdd sy'n gydnaws â'r amgylchedd naturiol – yn cryfhau cynnig yr ardal i farchnadoedd iau, yn cynnwys teuluoedd.

**Llety sy'n diffinio cyrchfan**
Mae 553 sefydliad llety yn yr ardal. Mae 59% yn sefydliadau hunan-arlwyo, ac mae traean o'r holl welyau yn yr is-sector carafanau teithio a gwersylla, sy'n dymhorol iawn. Ni fu cynnydd sylweddol mewn gwelyau yn y sector llety â gwasanaeth am dros ddeg mlynedd. Mae sicrhau buddsoddiad mewn llety â gwasanaeth yn allweddol. Dylai hyn gynnwys tafarndai amlwg yng nghanol trefi a busnesau lletygarwch boutique, dilys fydd yn gwella'r cynnig blwyddyn gron i breswylwyr lleol ac yn llythrennol ddod â mwy o werth i galon ein cymunedau, gan greu bywiogrwydd ac adfywio.








Gŵyl Fwyd y Fenni. *Kiran Ridley.*
Ymlacio ar Ben y Fâl. *Cyngor Sir Fynwy.*
Bwyty Seren Michelin yn The Whitebrook.

### Digwyddiadau unigryw drwy gydol y flwyddyn

Mae Gŵyl Fwyd y Fenni yn chwifio’r faner ar gyfer y dref, ac ar gyfer y sir; mae Gŵyl Afon Dyffryn Gwy yn fodel gwych ar gyfer math newydd o ddigwyddiad diwylliannol yn canolbwyntio ar y gymuned; a Castell Roc yn ddigwyddiad cymunedol go iawn. Gallent i gyd fod yn feincnodau ar gyfer cyflwyno digwyddiadau unigryw mewn trefi marchnad allweddol neu leoliadau eiconig, i roi sylw i bwynt gwerthu unigryw pob lle. Dylent fod yn fywiog ac apelio’n gryf at deuluoedd a chynulleidfaoedd iau – i ddod â deinameg i frand a chynnig yr ardal. Mae nifer o leoliadau ar gyfer digwyddiadau canolig yn y sir y gellid dod â nhw at ei gilydd mewn rhaglen ddeinamig drwy gydol y flwyddyn ar gyfer ymwelwyr a chynulleidfaoedd preswyl.

### Bwyd a diod

Mae’r cynnig bwyd a diod lleol yn dal i ddiffinio’r ardal ond mae twristiaeth gastronomaidd yn gystadleuol iawn. Mae’r cynnig yn arbennig o gryf yn y Fenni, gydag ansawdd ar bob pwynt pris. Mae hefyd ddatblygiadau diweddar cyffrous y gellid eu dathlu’n well: gwinllannoedd lleol a gwinoedd gwobrwyol; bragdai a gwneud jin; ton newydd o fwytai fferm; profiadau fforio gwyllt a chadw gwenyn; a digonedd o gynnyrch bwyd a diod lleol ansawdd uchel wedi eu brandio’n dda. Mae cyfle i barhau i adeiladu ar uchelgais y Cynllun Rheoli Cyrchfannau diwethaf i ddathlu’r stori hon gyda phrofiadau a hyrwyddo hyderus a chydlynus, efallai yn cael eu cyflwyno gan y sector preifat, gyda chefnogaeth y sector cyhoeddus.

### Profiadau boutique ac unigryw

Yn yr un modd, mae’r ardal hefyd yn gartref i nifer fach o brofiadau boutique neilltuol a ffasiynol y gellir eu harchebu, llawer ohonynt yn cysylltu lle gyda chynnyrch diriaethol, fel Wales Perfumery a’n distyllfeydd jin a gwinllannoedd. Maent yn rhoi model ar gyfer y math o brofiadau sydd eu hangen yn y dyfodol yn arbennig lle maent yn cydlynu a chydweithio.

### Sylfeini gwell

Fel yr amlinellwyd yn flaenorol, mae arolygon diweddar o ymwelwyr, busnesau a phreswylwyr yn dangos eu bod yn fodlon iawn gyda chynnig cynnyrch cynhenid neu greiddiol Sir Fynwy. Ond mae angen parhaus i fuddsoddi yn y seilwaith sy’n cefnogi, arwyddion, dynodi llwybrau, trafnidiaeth gyhoeddus, meysydd parcio, toiledau, oherwydd fod disgwyliadau ymwelwyr yn uchel, yn arbennig wrth i fwy a fwy ohonom deithio’n fyd- eang.

### Diwydiannau creadigol – ac ysbrydoliaeth

Mae Sir Fynwy wedi ysbrydoli pob math o greadigrwydd. Yn y canol oesoedd canmolodd Dafydd Llwyd y gaer-balas anhygoel yng Nghastell Rhaglan gyda’i gant o ystafelloedd yn llawn o fwyd a llawenhau, a’i gant o simneiau i ddynion o’r radd flaenaf; ar droad y ddeunawfed ganrif, cafodd artistiaid byd-enwog fel Wordsworth a Turner eu hysbrydoli gan Ddyffryn Gwy, a thua’r un amser, ddyfeisgarwch Arglwyddes Llanofer yn dyrchafu’r wisg Gymreig i statws cenedlaethol. Yn y 1960au, dylanwadodd y tirweddau o’i amgylch – ac ychydig o LSD - ar Allen Ginsberg, un o feirdd amlwg y genhedlaeth ‘beat’ i ysgrifennu cerdd i Gymru a’r sir ar gyfer The New Yorker. Yn fwy diweddar, mae’r ardal wedi ysbrydoli beirdd o Gymru, fel Owen Sheers; sêr cerddoriaeth amlwg o Queen i Oasis a Catatonia, a gynhyrchodd draciau yn y stiwdio yn Sir Fynwy, a chynhyrchwyr teledu Sex Education ac Young Sherlock. Gyda’i gilydd maent yn rhoi rhywbeth arbennig iawn. Mae dod â’r profiadau hyn yn fyw i ymwelwyr yn dactegol (drwy ymgyrch gyfredol ’Starting Great Britain’ VisitBritain, er enghraifft) a thrwy brofiadau creadigol yn gyfle twristiaeth uniongyrchol ac ar unwaith. Fodd bynnag, gallai pontio’n strategol gyda’r sector diwydiannau creadigol yn y rhanbarth i roi cynllun twf holistig ar draws y llinynnau pwysig hyn o’r economi profiad ddod â buddion trawsnewidiol.

**Pencampwriaeth Ffyrdd Cenedlaethol.** *Huw Evans.*
**His Dark Materials yng Ngerddi Dewstow.** *Bad Wolf / BBC / HBO.*
**Tân gwersyll yn Hidden Valley Yurts.** *Callum Baker.*
**Coctels yng Ngwesty’r Angel.** *Cyngor Sir Fynwy.*











# dathliadau

Rydym yn ymgynnull mewn cae ras a chyngherddau mewn cestyll; neu mewn dathliadau o'n ffordd traws-ffin o fyw – tebyg i Ŵyl Afon Dyffryn Gwy a Gŵyl Devauden.
Mae'r digwyddiadau hyn yn dod â bywiogrwydd ac enaid i ganol ein trefi a'n tirweddau, a rydym angen mwy ohonynt.

**Gŵyl Afon Dyffryn Gwy yn Llandogo.**
*Cam Adams.*

# MARCHNADOEDD YMWELWYR CYFREDOL

## Mae'n bwysig deall pwy yw ein hymwelwyr cyfredol, er mwyn llunio'r dyfodol.

- Mae 90% o ymwelwyr i Gymru yn dod o Brydain Fawr.
- Er y bu'r farchnad hon dan bwysau, mae 80% yn bwriadu cymryd trip dros nos o fewn Prydain Fawr o fewn y 12 mis nesaf.
- Gyda dros 30m o bobl yn byw o fewn 3-4 awr o'n sir, a'r rhan fwyaf o ymwelwyr yn dweud eu bod eisiau ymweld â threfi treftadaeth ac atyniadau diwylliannol ac awyr agored a blasu bwyd a diod lleol, rydym mewn lle cryf i gystadlu.
- Rydym eisoes yn denu mwy o ymwelwyr rhyngwladol na'r rhan fwyaf o rannau o Gymru ac mae gan lety a phrofiadau treftadaeth diwylliannol ansawdd uchel y potensial i wneud i ni sefyll allan.
- Yn olaf, mae Sir Fynwy yn cynnig portffolio cyfoethog o brofiadau ar gyfer teithwyr neu ymwelwyr diddordeb arbennig.
  Mae hyn yn cynnwys:
  - Cerdded, seiclo, chwaraeon dŵr a physgota ansawdd uchel.
  - Traddodiad arbennig o farchogaeth, rasio ceffylau a neidio sioe, yn cynnwys cae ras 100 mlwydd oed yng Nghas-gwent.
  - Gerddi hardd sy'n adnabyddus i rai sy'n hoff o arddio.
  - Lleoliadau anghyffredin ac amrywiol ar gyfer priodasau, sy'n rhoi llwyfan gwych ar gyfer hyrwyddo ymweliadau dychwel neu arosiadau hirach.
  - Lleoliadau a phrofiadau unigryw ar gyfer marchnad corfforaethol a chymhellion sy'n tyfu eto yn dilyn Covid. Mae hefyd gwmpas i wneud mwy o'n hagosatrwydd at ICC Cymru.

**Bydd cynnwys preswylwyr lleol, yn cynnwys teuluoedd a phobl ifanc, yn allweddol i dwf adfywiol. Maent yn gadarnhaol am dwristiaeth.**

**Ffynonellau:** *Ystadegau twristiaeth domestig Prydain Fawr (tripiau dros nos yng Nghymru); 2024, Arolwg Twristiaeth Prydain Fawr 2023; GB Domestic Sentiment Tracker Report Insights – Ebrill 2025, VisitBritain; Arolwg Preswylwyr Cyrchfannau Sir Fynwy, 2024.*






Abaty Tyndyrn.
*© Hawlfraint y Goron.*

> “Nid yw twristiaid heddiw eisiau cael eu hynysu o’r lleoedd y maent yn ymweld â nhw tu mewn i swigen ddiwylliannol. Maent eisiau ymgysylltu a chyfranogi yn y diwylliant lleol. O fwynhau cuisine lleol i ddathlu gwyliau a digwyddiadau rhanbarthol, bydd profiadau lleol yn dod yn rhai o’r prif dueddiadau twristiaeth i gadw golwg arnynt”.

Revfine’s Tourism Trends: 25 Opportunities for The Tourism Industry in 2025





# MAE TWRISTIAETH FYD-EANG YN NEWID.

**Dyma rai o’r tueddiadau sy’n llunio’r diwydiant ac a ddylai ddylanwadu ar ein datblygiadau yn y dyfodol.**

**Economi profiad**
Mae’r gyfran o gyfanswm gwerthiant a briodolir i wariant twristiaeth byd-eang ar brofiadau yn 12% fel ym mis Mawrth 2024, yn ôl Mastercard Spending Pulse Destinations — uwch nag erioed o’r blaen. Mae cyfleoedd i adeiladu cysylltiadau hybrid ac arloesol gyda sectorau creadigol a diwylliannol y sector i ddatblygu profiadau effaith uchel y dyfodol. Bydd angen i Sir Fynwy fod yn wreiddiol i ddal i fod yn berthnasol.

**Technoleg er budd**
Mae ffocws cynyddol ar brofiadau personol ymgolli sy’n dod yn fyw drwy dechnoleg. Dywedodd TikToc yn ddiweddar fod 71% o’i ddefnyddwyr Ewropeaidd yn archebu gwyliau yn defnyddio argymhellion o’r llwyfan. Mae technoleg clyfar a deallusrwydd artiffisial yn trawsnewid rheoli cyrchfannau a marchnata, yn ogystal â chynhyrchiant a llwyddiant busnesau unigol.

**Patrwm newydd**
Mae newid patrwm yn digwydd mewn twristiaeth, yn seiliedig ar ailgalibro’r gwerth real y gall y sector ei roi. Mae hyn yn arwain at ymagweddau newydd at arloesedd twristiaeth a chydweithio ‘hybrid’ rhwng ‘chwaraewyr’ sefydledig yn y diwydiant, cymeriadau lleol ac actorion newydd o sectorau eraill. Mae arbenigwyr tu allan i letygarwch yn buddsoddi yn y sector, sy’n gyrru twf mewn cynnyrch ‘twristiaeth’ llai traddodiadol.

**Naws ‘ansawdd bywyd’**
Mae symud o 'atyniadau' gorllewinol clasurol diriaethol at brofiadau mwy cynnil ar gyfer pob cynulleidfa. Mae ‘naws’ ffordd o fyw yr un mor bwysig ag atyniadau unigol, ond gallant ddod yn dotemig o’r ‘naws’ hwnnw hefyd, fel y dengys y weiriau gwib yng ngogledd Cymru. Mae pobl eisiau ymweld â lleoedd sy’n cynnig ansawdd bywyd cyfoethog, ac mae hyn yn golygu bod twristiaeth yn sylfaen i frand ehangach lle.

**Profiadau diwylliannol lleol**
O safbwynt twristiaeth, caiff yr economi profiad ei yrru gan ofynion am ddilysrwydd, uniondeb mewn profiadau real, seiliedig ar bobl ac aml-haen a gyflwynir gan y gymuned ‘leol’. Yn ôl Twristiaeth y Cenhedloedd Unedig, caiff 40% o’r holl ymwelwyr rhyngwladol byd-eang eu cymell gan ddymuniad i gael profiadau diwylliannol.

**Gyferbyn:**
**Mari Lwyd yng Ngŵyl Devauden.**
*© Hawlfraint y Goron.*

## ARFER GORAU RHYNGWLADOL

Yn olaf, cafodd y Cynllun newydd hefyd ei lywio gan wybodaeth o gyrchfannau Ewropeaidd blaenllaw. Ym mhob un o'r meysydd hyn, mae'r sector cyhoeddus a'r sector preifat wedi cydweithio mewn ffyrdd arloesol i ddatblygu dulliau gweithredu adfywiol a seiliedig ar brofiad ar gyfer twristiaeth: sy'n dda i ymwelwyr a hefyd i gymunedau.

Mae cyrchfannau llwyddiannus yn:

1. Dangos y **gall ardaloedd gwledig bach mewn safleoedd llawer mwy heriol na Sir Fynwy arloesi a llwyddo**.
2. Rhoi **hunaniaeth ddiwylliannol a chreadigol** wrth galon y weledigaeth.
3. Meddu ar **strwythurau rheoli cyrchfan cryf**. Ond nid oes 'un faneg yn ffitio pob llaw'.
4. Gweithio mewn **partneriaeth gadarn** ar draws sectorau, sefydliadau a ffiniau.
5. Meddu ar **strategaethau syml** sy'n graff ac sydd â ffocws ar ailadrodd llwyddiant.
6. Defnyddio **ffyrdd newydd i fesur llwyddiant twristiaeth** tu hwnt i fesurau economaidd oer.
7. Meddu ar **gynigion cryf a chydlynus a gytunwyd**, gan gyfuno cynnyrch sy'n diffinio gallu cystadleuol unigryw yr ardal.
8. Yn aml **yn cyfosod traddodiad gyda chreadigrwydd a dylunio cyfoes**.
9. **Cefnogi eu henillwyr ac yn rhagweithiol wrth gefnogi busnesau teuluol lleol**, gan leihau dadleoli economaidd.
10. Adnabod a **chroesawu buddsoddwyr, arloeswyr a meddylwyr gwreiddiol**.

**Yn hanfodol, maent yn sylweddoli mai dim ond un rhan o'r broses yw strategaethau a chynlluniau: beth sydd ganddynt yn gyson yn gyffredin yw diwylliant o gydweithio sy'n croesawu heriau a photensial twristiaeth.**

Gyferbyn:
**Piran, Istria — un o'r cyrchfannau a ysbrydolodd y Cynllun hwn.**



# RHAN 2:
# CYNLLUN AR GYFER Y DYFODOL



Gŵyl Afon Dyffryn Gwy yn Llandogo.
*Cam Adams.*

## GADEWCH I NI DDOD YN LASBRINT AR GYFER Y GENHEDLAETH NESAF O GYRCHFANNAU.

### DIBEN

Sir Fynwy yw man geni twristiaeth ym Mhrydain a nawr rydym yn llywio ei ddyfodol. Ein diben sylfaenol: dod yn lasbrint ar gyfer cyrchfannau gwledig adfywiol cenhedlaeth nesaf. Y lle mwyaf ysbrydoledig, cysylltiedig a chroesawgar yng Nghymru i aros, buddsoddi a byw ynddo.

### UCHELGAIS 2030


Erbyn 2030 rydym eisiau bod yn brif gyrchfan wledig Cymru: lle caiff ymwelwyr a phreswylwyr eu cyfoethogi gan brofiadau gyda naws cryf am le. Byddwn yn dathlu egni creadigol Sir Fynwy: gan annog y genhedlaeth nesaf i gael eu hysbrydoli, cymryd rhan a llywio'r dyfodol.

### NOD

Byddwn yn dod â bywiogrwydd i'r stryd fawr, antur i'n tirweddau a hyder i'n cymunedau drwy fwy a gwell twristiaeth sy'n dathlu a chyfoethogi ansawdd bywyd.

# AMCANION

Ein amcanion yw cyflenwi buddion economaidd a llesiant i Sir Fynwy drwy dwristiaeth. Gyda'n gilydd rydym eisiau hyrwyddo a chefnogi:




**Ein heconomi**
Gyda thwristiaeth sy'n sbarduno twf economaidd ar gyfer busnesau lleol sydd wedi ymwreiddio yn ein cymunedau.
— 25% o dwf mewn gwerth economaidd a swyddi – yn cynnwys o fewn trefi a phentrefi.
— cynnydd blwyddyn ar flwyddyn yn y sector o'r sector preifat.

**Ein seilwaith**
Gyda thwristiaeth sy'n helpu i gynnal a chefnogi seilwaith sy'n dda i breswylwyr a gwesteion.
— Gwell ymdeimlad o gyrraedd yn yr holl drefi allweddol a hybiau cyrchfan.
— Gwell seilwaith sylfaenol i ymwelwyr – meysydd parcio, toiledau, arwyddion.

**Ein diwylliant a chymdeithas**
Gyda thwristiaeth sy'n dathlu ein creadigrwydd, gan ddod ac egni a meithrin hyder.
— Mwy o gyfleoedd diwylliannol ar gyfer preswylwyr lleol, yn cynnwys teuluoedd a phobl ifanc.
— Gwella balchder dinesig.

**Ein profiadau**
Gyda phrofiadau cyfoes a wnaed yn Sir Fynwy sy'n cyfoethogi ansawdd bywyd.
— Mesuradwy fwy o brofiadau a digwyddiadau ansawdd uchel ar gyfer ymwelwyr a phobl leol, yn cynnwys teuluoedd a phobl ifanc, sy'n gydnaws gyda'n cynnig ac sydd â naws cryf am le.
— Cynnydd o 20% mewn gofodau gwely â gwasanaeth, 4-5* – gyda ffocws ar ganol trefi.

**Ein amgylchedd**
Dechrau ein gyrru ar lwybr twristiaeth carbon sero gyda dulliau gweithredu cynaliadwy.
— Hybu ymwybyddiaeth ymwelwyr o faterion amgylcheddol, gan ysbrydoli newidiadau cadarnhaol mewn ymddygiad.
— Cynnydd yn nifer y teithwyr sy'n teithio i ac o fewn y gyrchfan ar drafnidiaeth gyhoeddus a rhwydweithiau teithio llesol.

**Ein cynnig cyffredinol**
Cynyddu bodlonrwydd ymwelwyr, busnesau a phreswylwyr gyda twristiaeth sy'n gweithio i bawb.

**Caiff y llinell sylfaen ar gyfer gwerthuso ar bob un o'r amcanion hyn ei osod, wrth ochr targedau twf realistig i 2030, ar ddechrau'r Cynllun. Bydd y Bartneriaeth Rheoli Cyrchfannau yn olrhain perfformiad ar sail barhaus.**

# MARCHNADOEDD TWF

Bydd ein ffocws ar ddatblygu cynnig sy'n sefyll allan, yn ogystal â phrofiadau a marchnata a anelwyd at y marchnadoedd twf craidd canlynol. Byddwn yn rhoi pwyslais ar werth dros gyfaint; ac ar ddiogelu a hyrwyddo lle dros gynyddu nifer ymwelwyr dydd.

**Marchnad Leol: Preswylwyr**

— Bydd cynnwys preswylwyr lleol yn allweddol.

— Mae Sir Fynwy yn gartref i dros 90,000 o bobl, gyda bron 50% ohonynt dros 50 mlwydd oed. Mae'r rhan fwyaf bobl leol mewn iechyd da iawn neu dda, ac mae lefel cyflogau yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae preswylwyr yn ystyried twristiaeth yn ddylanwad cadarnhaol.

— *Rydym eisiau darparu ar gyfer y gynulleidfa hon, gan yn raddol greu mwy o resymau i deuluoedd a phobl ifanc gymryd rhan.*

**Marchnad Ymwelwyr Craidd: Ymwelwyr o Brydain Fawr o fewn 2 awr**

— Daw traean o'r twristiaid yng Nghymru o Gymru. Mae hanner poblogaeth Cymru yn byw mewn ardaloedd trefol neu ôl-ddiwydiannol yn Ne Ddwyrain Cymru. Mae Sir Fynwy yn rhoi gwrthgyferbyniad i fywyd bob dydd. Hon yw'r farchnad fwyaf amrywiol yng Nghymru.

— Mae miliynau o ddarpar ymwelwyr yn byw o fewn 2 awr o amser teithio o'r sir, ar draws y ffin yn Lloegr, yn cynnwys ym Mryste.

— *Rydym eisiau rhoi mwy o resymau i'r cynulleidfaoedd craidd hyn i aros a gwario yn ein cymunedau.*

**Marchnadoedd Twf y Dyfodol: Ehangach Marchnadoedd y DU a Rhyngwladol**

— Mae De Ddwyrain Lloegr a Gorllewin Canolbarth Lloegr yn farchnadoedd twf posibl, gan gynnig mynediad trafnidiaeth rhwydd, mewn car ac ar drên, yn uniongyrchol i galon ein cymunedau a thirweddau.


— Mae cwmpas i ddenu marchnadoedd rhyngwladol a arweinir gan brofiad sy'n awyddus i ymchwilio rhannau newydd o'r Deyrnas Unedig. Byddwn yn targedu ymwelwyr sydd eisoes yn y Deyrnas Unedig a gweithredwyr teithiau grŵp bach, moethus.

— Eto, y nod yw sefyll allan fel cyrchfan gwyliau byr sy'n arwain yn y Deyrnas Unedig.

**Marchnadoedd diddordeb arbennig:**
**Gweithgareddau Awyr Agored / Marchogaeth / Gerddi / Priodasau / Corfforaethol.**



Byddwn yn tyfu llwyddiant o'r tu mewn allan, gyda phrofiadau a wnaed yn Sir Fynwy sy'n unigryw leol, ond o safon rhyngwladol.






# trefi marchnad

Brynbuga, Cas-gwent, Cil-y-coed, Trefynwy a'r Fenni. Rydym yn gartref i rai o drefi marchnad mwyaf eiconig Cymru: yn llawn o dreftadaeth gyfoethog, cymeriad cyfoes a photensial ar gyfer y dyfodol.

**Gŵyl Fwyd y Fenni.**
*Drabble & Co.*

## CYNNIG

Mae ffocws y Cynllun Rheoli Cyrchfannau ar dair thema gyda photensial twf ar gyfer Sir Fynwy. Bydd y rhain yn sail i'n blaenoriaethau cynnyrch a marchnata yn dyfodol. Maent yn gydnaws gyda themâu cynnyrch craidd Croeso Cymru – Tirweddau o Harddwch Naturiol Eithriadol; Diwylliant Creadigol ac Antur Epig.

**Profiadau a wnaed yn Sir Fynwy sy'n unigryw o leol, ond yn rhyngwladol mewn ansawdd.**

**Cymunedau Bywiog**
Byddwn yn dathlu cymeriad lliwgar ein cymunedau a rhoi nodweddion neilltuol ein trefi marchnad a phentrefi wrth galon taith pob ymwelydd.

**Antur Naturiol**
Byddwn yn fan o anturiaethau trawiadol a hygyrch, sy'n cynnig llesiant dwfn ac yn ein cysylltu i gyd gyda'r byd o'n cwmpas: llwybrau cerdded, heicio, teithiau beic, tripiau padlfyrddio drwy ddiwylliant a natur.

**Diwylliant sy'n Ysbrydoli**
Byddwn yn dathlu'r holl greadigrwydd a ysbrydolwyd gan ein tirweddau – dod â'n treftadaeth yn fyw gydag arloesedd; a rhoi cyfleoedd drwy gydol y flwyddyn i brofi'r celfyddydau, crefftau a bwyd a diod a gafodd eu llunio gan sesiynau blasu, teithiau cerdded, gweithdai ac yn y blaen.

**Ysbryd creadigol:** byddwn yn dathlu egni creadigol Sir Fynwy, gan gyflenwi gyda hyder diwylliannol a dychymyg.



## SBARDUNAU

Mae strategaeth 'Croeso i Gymru' Llywodraeth Cymru yn rhoi sylw i dri sbardun ar gyfer tyfu twristiaeth: **Gwariant, Tymoroldeb a Dosbarthiad.**
Yn Sir Fynwy rydym yn ychwanegu tri sbardun arall i lywio ein ffocws:

**Sefyll allan**
Fel 'man geni twristiaeth ym Mhrydain', mae'n rhaid i ni adfywio ac ailddychmygu ein profiadau yn barhaus i aros yn gystadleuol yn y farchnad ac yn berthnasol adref.

**Aros**
Mae annog ymwelwyr sy'n dod eto ac ymwelwyr newydd i aros am fwy o amser yn ein cymunedau yn hanfodol i sicrhau twf gwirioneddol adfywiol.

**Naws am le**
Mae hyn yn cynnwys bod yn hyderus am y gororau, diwylliant Cymru a'r iaith Gymraeg.

| | |
|---|---|
| Tymoroldeb | Sefyll allan |
| Gwariant › | Aros |
| Dosbarthiad | Naws am le |



Cafodd tair blaenoriaeth allweddol eu dynodi fel bod yn greiddiol i ddull gweithredu'r dyfodol. **Gyda'n gilydd, drwy'r Cynllun hwn byddwn yn:**

## 1

Adfywio trefi a phentrefi llawn cymeriad y sir drwy dwristiaeth ansawdd uchel.

## 2

Ailgynnau ein tirweddau naturiol gyda gweithgaredd ac antur, mewn ffyrdd sensitif a chreadigol.

## 3

Datblygu profiadau dychmygus gyda naws neilltuol am le, sy'n cyfoethogi ansawdd bywyd.

Gardd Veddw House.
*Callum Baker.*

# 1. Lleoedd Bywiog

Yn ganolog i'r ymagwedd ar gyfer y dyfodol yw'r syniad y bydd ein prif drefi sirol, a'n trefi marchnad yn neilltuol, yn dotemig i brofiad ymwelwyr yn y sir yn y dyfodol. Bydd pwyslais neilltuol ar ddod â golwg ifanc a bywiog i'r cynnig ac ar ddod â swyddi i galon cymunedau. Mae hyn yn gydnaws gyda'r weledigaeth a amlinellir yn Strategaeth Economi, Cyflogaeth a Sgiliau Sir Fynwy a'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd. Mae gan lawer o drefi a phentrefi Sir Fynwy gynnig cryf a chyfoethog mewn treftadaeth, ac mae galw yn y farchnad am brofiadau trefi treftadaeth.

Byddwn yn sicrhau Lleoedd Bywiog drwy:

## 1

### Creu lle integredig

— **Creu lle ar y cyd, dan arweiniad y gymuned ac wedi'i wreiddio mewn dibe**n – Byddwn yn gweithio gyda chynghorau tref, siambrau masnach a grwpiau cymunedol i wneud twristiaeth yn gydnaws gyda blaenoriaethau lleol creu lle. Bydd gan bob tref ymwelwyr neu hyb allweddol ei hunaniaeth ei hun ond byddwn hefyd yn mynd ati i adeiladu cydlyniant ar draws y sir, er budd brand cyrchfan ymbarél.

— **Canol trefi neilltuol, cystadleuol**
— Gweithio gyda phartneriaid y diwydiant i ailddychmygu ein trefi cyfoethog mewn treftadaeth i sefyll allan ar lwyfan y Deyrnas Unedig drwy arloesi cynnyrch, cymorth busnes, marchnata cadarn ac ymgyfraniad wedi'i wreiddio yn y gymuned.

— **Hunaniaeth ddiwylliannol hyderus** — Gweithio gyda phartneriaid diwylliannol a chreu lle i ymwreiddio celf gyhoeddus, creadigrwydd ac adrodd stori yn y parth cyhoeddus i hyrwyddo naws am le cryf a dilys ac arddangos cymeriad unigryw pob tref.

— **Cynnig treftadaeth cydlynus** – Creu profiad treftadaeth integredig sy'n cysylltu straeon ac asedau cymunedol yn ein trefi a phentrefi.

— **Arloesedd craff, a yrrir gan brofiad**
– Defnyddio data a dulliau digidol i gyfoethogi profiad ymwelwyr a chefnogi gwneud penderfyniadau craffach ar draws creu lle a chyflenwi twristiaeth.

— **Bywyd tref bywiog a buddsoddiad strategol**
— Bywiogi canol trefi gyda marchnadoedd prysur a digwyddiadau blynyddol unigryw, tra'n mynd ati i ddynodi cyfleoedd ar gyfer buddsoddiad lletygarwch ansawdd uchel allweddol mewn canol trefi sy'n brin o ddarpariaeth, yn arbennig llety â gwasanaeth boutique a safon uchel. Byddwn hefyd yn ymchwilio cydweithio gyda siroedd eraill tebyg i frand 'Trefi Marchnad Cymru' gyda Bannau Brycheiniog, Powys a Sir Gaerfyrddin.

**Rolau a Chyfrifoldebau:**
Cyngor Sir Fynwy i hwyluso drwy'r rhaglen a'r broses creu lle, gan gydweithio gydag ystod eang o bartneriaid a chyllidwyr lleol a chenedlaethol.



## 2

### Gwella'r sylfeini

— **Gwella cysylltedd trafnidiaeth gyhoeddus**
— Byddwn yn gweithio drwy'r Cynllun Trafnidiaeth Lleol i wella amlder, ansawdd a gweledd cysylltiadau trafnidiaeth i Sir Fynwy, yn cynnwys gwella mynediad rheilffordd i Gas-gwent, y Fenni ac arwyddion ffordd o Bont-y-pŵl.

— Sicrhau bod trefi a chyrchfannau allweddol o fewn Sir Fynwy hefyd wedi eu cysylltu'n dda gyda gwella trafnidiaeth gyhoeddus a llwybrau teithio llesol, a gwella hyrwyddo pecynnau 'diwrnod mas' rhwydd ar gyfer ymwelwyr a phobl leol.

— Ymchwilio defnyddio technoleg i fonitro patrymau symudiad a chyflenwi gwasanaethau bws cyfeillgar i ddefnyddwyr. Byddwn hefyd yn edrych ar gefnogi datrysiadau trafnidiaeth mewn cerbydau trydan dan arweiniad y gymuned, tebyg i gerbydau gwennol lleol o orsafoedd rheilffordd i atyniadau fel llwybrau a gwinllannoedd.

— Gweithredu creu lle creadigol i wella gorsafoedd a chyfnewidfeydd a sicrhau fod hybiau trafnidiaeth yn cefnogi teithio llesol a seiclo gyda chyfleusterau newid cerdded/seiclo, cadw beiciau ac yn y blaen fel y'i bwriedir yn y Fenni.

— Gweithio gyda darparwyr trafnidiaeth a busnesau i gynnig pecynnau a phrofiadau y gellir eu harchebu ymlaen llaw, yn cynnwys syniadau newydd fel 'trên bwyd' o Fryste, Caerdydd a Chasnewydd.

— **Argraff gyntaf gadarnhaol** – Gweithio fel 'un Cyngor' i archwilio (yn ffurfiol ac yn flynyddol) yr ymdeimlad o gyrraedd a roddwn i ymwelwyr sy'n teithio ar y ffordd, ar drên, ar droed/beic i'r sir yn gyffredinol, ac i bob un o'n hybiau cyrchfan allweddol.

— **Arwyddion ffyrdd a dynodi llwybrau ansawdd uchel** – Archwilio a gwella arwyddion ffyrdd a gwybodaeth dynodi llwybrau mewn cyrchfannau ymwelwyr allweddol, gan sicrhau fod yr holl arwyddion newydd yn arbennig ac yn cyfleu naws am le, gan adeiladu ar ein gwaith diweddar yn Nhyndyrn. Byddwn yn cynnwys arwyddion digidol mewn hybiau ymwelwyr allweddol.

**Rolau a Chyfrifoldebau:**
Cyrff trafnidiaeth, drwy gyd-gysylltu cyflenwi.



## 3

### Treftadaeth ddiwylliannol fyw

— **Diogelu a hyrwyddo asedau treftadaeth** – Byddwn yn defnyddio creu lle ystyriol a chreadigol i gadw ac arddangos ffabrig treftadaeth cyfoethog ein cymunedau, gan sicrhau ei fod yn parhau yn rhan ganolog o brofiad ymwelwyr.

— **Cynlluniau treftadaeth bywiog dan arweiniad y gymuned** – Gweithio gyda sefydliadau lleol i sicrhau cyllid ar gyfer prosiectau treftadaeth allweddol, tebyg i gynllun Plasdy Gunter yn y Fenni, sy'n taro tant gyda phreswylwyr ac ymwelwyr fel ei gilydd.

— **Cynlluniau cydweithio arloesol i ddod â'n treftadaeth yn fyw** – Ymgysylltu gyda sefydliadau treftadaeth, gweithredwyr sector preifat a phartneriaid diwylliannol i ymchwilio cyfleoedd arloesol ar y cyd ar gyfer digwyddiadau a gweithgareddau, tebyg i anturiaethau dianc o gastell, neu brofiadau blasu gwin, yn cynnwys edrych am ffyrdd i ddathlu ein hunaniaeth Gymreig a'r iaith Gymraeg.

**Rolau a Chyfrifoldebau:**
Cyngor Sir Fynwy mewn partneriaeth gyda chyrff treftadaeth ddiwylliannol, tebyg i Cadw.

**Castell Cas-gwent.** © *Hawlfraint y Goron.*





**Y Gegin yn Y Capel, y Fenni.**
**Gorymdaith Gŵyl Afon Dyffryn Gwy yn Nhrefynwy.** *Gemma Kate Wood.*

Er ein bod eisiau rhoi pwyslais go iawn ar wella canol ein cymunedau drwy'r Cynllun, caiff Sir Fynwy hefyd ei llunio gan ei thirweddau, sydd wedi ysbrydoli cerddwyr ac awduron, pysgotwyr ac artistiaid ers canrifoedd. Bydd pobl eisiau aros am fwy o amser yn ein trefi a phentrefi oherwydd eu bod yn fannau i gyrraedd lleoedd hardd i gerdded, seiclo neu ganŵio ynddynt ac i flasu a phrofi cynnyrch lleol. Mae'r tirweddau hyn hefyd yn rhoi cyfleoedd i bobl leol fwynhau ffyrdd o fyw iachach. A rydym eisiau agor ein cefn gwlad yn ofalus ac mewn modd sensitif sydd hefyd yn hyrwyddo a diogelu ein cynefinoedd naturiol.

# 2. Tirweddau egniol ar gyfer ffyrdd o fyw iachach

## 1

### Sir cerdded a seiclo

— **Teithio llesol cyfoes ar hyd llwybrau canrifoedd o oed** – Byddwn yn ymchwilio cyfleoedd i wella cyfleoedd teithio llesol ar hyd llwybrau hanesyddol rhwng ein trefi a phentrefi allweddol, tebyg i Ffyrdd y Porthmyn. Mae hefyd gwmpas i greu mwy o brofiadau cynnyrch ar hyd Camlas Sir Fynwy ac Aberhonddu.

— **Dod yn ganolbwynt cenedlaethol ar gyfer llwybrau cerdded a seiclo** — Parhau i roi blaenoriaeth i fuddsoddiad yn llwybrau cerdded a seiclo arwr neu 'genedlaethol' yr ardal a'r cynnig presennol yn cynnwys Llwybr Clawdd Offa, Llwybr Arfordir Cymru, Llwybr Dyffryn Gwy, a gwneud mwy yn y trefi a phentrefi ar y llwybrau hyn i roi sylw i'r llwybrau drwy frandio ac arwyddion ac annog mwy o gerddwyr a seiclwyr i aros dros nos yn ein cymunedau.

— **Mwy o seiclo ffordd a seiclo mwy diogel**
— Monitro amodau seiclo ffordd yn unol â'r Cynllun Trafnidiaeth Lleol, i sicrhau fod y rhwydwaith ffyrdd mewn cyflwr da a diogel ar gyfer seiclwyr, gan annog mwy o seiclwyr i stopio ac aros dros nos drwy ymdrechion marchnata wedi'u targedu.

— **Cerdded a seiclo lleol** — Gweithio drwy'r Cynllun Trafnidiaeth Lleol i wella a hyrwyddo llwybrau cerdded, seiclo ac olwyno yn ein holl drefi.

— **Gwella mapio a dehongli** — Gweithio gyda phartneriaid, yn cynnwys Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a Thirwedd Cenedlaethol Dyffryn Gwy i adolygu a gwella mapiau a dehongli llwybrau lleol cerdded a seiclo – gyda'r nod o lansio un profiad llwybr cerdded/seiclo gwell ar wefan y gyrchfan bob blwyddyn, gan efallai weithio gyda gohebwyr ac awduron cerdded/seiclo lleol blaenllaw. Byddwn hefyd yn datblygu mapiau dehongli 'arddull cyrchfan' ar gyfer ein trefi a hybiau ymwelwyr allweddol – gan hyrwyddo amrywiaeth y gweithgareddau o fewn y gymuned, yn ogystal ag yn y tirweddau o amgylch.

**Rolau a Chyfrifoldebau:**
Cyngor Sir Fynwy mewn partneriaeth gyda Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a Thirwedd Cenedlaethol Dyffryn Gwy.

## 2

### Hybu'r Sector Gweithgareddau

— **Sefydlu Clwstwr Sector Gweithgareddau**
— Byddwn yn cydweithio gyda busnesau lleol i greu Clwstwr Sector Gweithgareddau, gan feithrin twf twristiaeth antur a gweithgareddau adfywiol seiliedig yn y gymuned, gan adlewyrchu'r 'diddordebau arbennig' y rhoddir blaenoriaeth iddynt ar gyfer Sir Fynwy yn neilltuol.

— **Adolygu a meincnodi'r sector**
— Gweithio gyda'r clwstwr i asesu'r sector gweithgareddau yn Sir Fynwy, gan gymharu ei faint a'i berfformiad gyda chyrchfannau tebyg yn y Deyrnas Unedig a siroedd cyfagos, a rhoi cynllun ar waith i dyfu'r sector.

— **Profiadau antur gwreiddiol**
— Dathlu gweithgaredd a chyrchfannau a gweithredwyr antur presennol, tebyg i Lyn Llandegfedd. Byddwn hefyd yn dynodi cyfleoedd i greu profiad gweithgaredd neu antur newydd sy'n arwain y ffasiwn sy'n gydnaws gyda brand Sir Fynwy ac yn adfywio ei gynnig twristiaeth, gyda ffocws penodol ar deuluoedd a marchnadoedd iau.

**Rolau a Chyfrifoldebau:**
Cyngor Sir Fynwy mewn partneriaeth gyda'r sector Gweithgareddau.

## 3

### Hyrwyddo mynediad cyfrifol i natur

— **Hyrwyddo twristiaeth ddiogel a chyfrifol**
— Byddwn yn cydweithio gyda'r diwydiant i lywio ymwelwyr ar sut i fwynhau amgylchedd naturiol Sir Fynwy mewn modd cyfrifol, gan adlewyrchu egwyddorion Strategaeth Argyfwng Hinsawdd a Natur Cyngor Sir Fynwy.

— **Rhoi sylw i gynefinoedd naturiol**
— Cynyddu proffil cynefinoedd naturiol lleol, yn arbennig Wastadeddau Gwent, drwy ymdrechion marchnata a chyfathrebu.

— **Cefnogi cynlluniau afonydd ac arfordir**
— Cefnogi cyflenwi Cynllun Gweithredu Afonydd a Moroedd Sir Fynwy drwy godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd ein afonydd ac arfordiroedd – gan weithio gyda Chlwstwr y Sector Gweithgareddau i brif ffrydio negeseuon allweddol pwysig i'w profiadau ar y dŵr, rhannu negeseuon codi ymwybyddiaeth gyda'r diwydiant ymwelwyr lleol a chynnwys negeseuon perthnasol o fewn ein marchnata cynnwys cyrchfan.

**Rolau a Chyfrifoldebau:**
Cyngor Sir Fynwy gyda sefydliadau a grwpiau amgylcheddol.

**Padlfyrddio ar Lyn Llandegfedd**
*© Hawlfraint y Goron.*



Yr allwedd i lwyddiant yw cyflenwi profiadau a digwyddiadau sy’n sefyll allan, sy’n gydnaws gyda chynnig craidd yr ardal ac yn dod â’n stori yn fyw ac sy’n ennyn cyffro ymysg ymwelwyr a’u preswylwyr a’u cael i gymryd rhan. Teimlir fod cynnig cynhenid yr ardal o ansawdd uchel ond fod angen ei adfywio yn barhaus a dod ag ef yn fyw mewn ffyrdd newydd – ar gyfer cynulleidfaoedd y dyfodol.

# 3. Profiadau sy’n cyfoethogi

1

## Profiadau a wnaed yn Sir Fynwy

— **Meithrin rhwydweithio a chydweithio** — Byddwn yn hwyluso cyfleoedd i fusnesau rwydweithio, rhannu gwybodaeth a chydweithio ar gynnyrch a phrofiadau ar y cyd, gan hybu’r economi lleol.
— **Ffurfio partneriaethau traws-sector**— dod â busnesau twristiaeth ynghyd gyda chynhyrchwyr bwyd, artistiaid, gwneuthurwyr crefftau a phartneriaid yn y diwydiant creadigol i wneud y profiad lleol yn fwy deinamig.

— **Hyrwyddo profiadau presennol** — Annog busnesau i roi sylw i brofiadau a chyfleoedd lleol ar eu gwefannau ac mewn gwybodaeth i ymwelwyr, gan feithrin diwylliant arddull ‘concierge’ o draws-hyrwyddo o fewn y diwydiant twristiaeth.

— **Datblygu profiadau lleol newydd** — Cefnogi’r diwydiant i ddod ag o leiaf bump o brofiadau cynnyrch dan arweiniad y sector preifat ac y gellir eu harchebu ymlaen llaw i’r farchnad bob blwyddyn, gan roi arweiniad ar bob cam o’r broses, o ddylunio cysyniad i ddatblygu cynnyrch, i frandio a marchnata. Byddwn yn rhoi blaenoriaeth i brofiadau lleol ac annibynnol a gaiff eu rhedeg gan deuluoedd, sydd ag ymdeimlad o hunaniaeth leol a rhoi cyfle i ymwelwyr i brofi cynnyrch lleol, o bersawr i win i gelf. Dylai rhai o’r profiadau apelio at farchnadoedd iau, yn cynnwys teuluoedd. Caiff profiadau dan do eu annog hefyd.

— **Cyflenwi profiadau hyderus ar draws cyrchfannau** — Gweithio gyda’n busnesau, sefydliadau a chymunedau i ddatblygu un profiad cyhoeddus-preifat newydd, unigryw a phroffil uchel bob blwyddyn er mwyn codi proffil y gyrchfan yn gyffredinol. Gallai syniadau gynnwys:

— Llwybrau Gwin a Cherdded / Cynllun ar y cyd rhwng prif winllannoedd yr ardal, i greu profiad ‘llwybr gwin’ y gellir ei archebu ymlaen llaw, sy’n cysylltu gyda llwybrau cerdded lleol.

— Golygfeydd i ysbrydoli / Prosiect celf a diwylliant ar y cyd i arddangos stori’r ardal fel lle sydd wedi ysbrydoli barddoniaeth, celf, cerddoriaeth a theledu ymhlith y gorau yn y byd, gan adeiladu ar gynllun Taith Gwy Bictiwrésg, a lansiwyd ychydig cyn Covid.

— Croesi’r ffin / Cyfres o brofiadau a gynlluniwyd i chwarae ar safle Sir Fynwy ar y ffin, gyda mannau stopio ar ddwy ochr y ffin; mannau addas ar gyfer Instagram ar groesiadau allweddol, siglen enfawr ar draws yr afon ac yn y blaen.

— **Cadw digwyddiadau unigryw** – Cefnogi digwyddiadau unigryw rhagorol yr ardal drwy weithio gyda threfnwyr i ddynodi cyllid cynaliadwy posibl, gan alluogi cynllunio strategol a gwella profiad ymwelwyr yn barhaus ar gyfer preswylwyr ac ymwelwyr fel ei gilydd.

— **Cydlynu digwyddiadau drwy gydol y flwyddyn** — Gweithio gyda safleoedd allweddol ar gyfer digwyddiadau tebyg i Gae Ras Cas-gwent i greu calendr o ddigwyddiadau wedi eu cydlynu drwy gydol y flwyddyn, gan sicrhau manteisio i’r eithaf ar gyfleoedd i gyfoethogi’r profiad ymwelwyr ac annog arosiadau hir.

— **Datblygu digwyddiadau penodol eiconig yng nghanol trefi** – Cydweithio gyda phartneriaid yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a’r trydydd sector i greu o leiaf un digwyddiad unigryw ym mhob tref sy’n dangos ei chymeriad a’i hunaniaeth neilltuol – gŵyl gerdd yn Nhrefynwy, er enghraifft, i ddathlu treftadaeth gyfoethog y dref fel man o gynhyrchu cerddoriaeth. Dylai’r rhain deimlo’n ffres ac ifanc, a chynnwys marchnadoedd teulu ac iau.

— **Cefnogi digwyddiadau tu allan i’r tymor brig** – Meithrin datblygu gwyliau a digwyddiadau newydd tu allan i’r tymor brig – megis Gŵyl Cerdded a Gwin yn y Fenni, ac anelu i lansio un digwyddiad mawr yn y tymor ysgwydd ar draws y sir erbyn 2030 i uno ein cymunedau, tebyg i ŵyl cerdded i’r sir gyfan.

— **Priodasau unigryw Gymreig** – Cydweithio gyda’r sector Priodasau i barhau i dyfu cynnig priodasau neilltuol Sir Fynwy a thraws-hyrwyddo gwyliau arhosiad-hirach a dychwelyd ar gyfer y rhai sy’n mynychu priodasau a dathliadau teuluol lleol.

### Rolau a Chyfrifoldebau

Cyngor Sir Fynwy i gydlynu a hwyluso, ond caiff y ddarpariaeth a’i gweithredu ei arwain gan y sector preifat a’r trydydd sector.

Nofio Gwyllt yn Ynys Wysg. Callum Baker. *Callum Baker.*
Gŵyl Fwyd y Fenni. *Drabble & Co.*





# 3. Profiadau sy'n cyfoethogi (parhad)

2

**Llety ansawdd-uchel**

— **Ffocws ar lety â gwasanaeth ansawdd uchel**
— Byddwn yn canolbwyntio ar sicrhau buddsoddiad mewn tafarndai a gwestai amlwg yn y prif gyrchfannau, yn arbennig yng nghanol trefi a hybiau ymwelwyr lle maent yn brin, er mwyn creu màs critigol o lety ansawdd uchel yn nhrefi marchnad Sir Fynwy. Byddwn hefyd yn sicrhau y manteisir i'r eithaf ar gyfleoedd a ddynodir drwy'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd er mwyn sicrhau gwell opsiynau ar gyfer teuluoedd.

— **Cynnal Adolygiad Llety**

— Cyflenwi Adolygiad Llety a Chynllun Buddsoddi gyda mewnbwn gan fenthycwyr yn y sector preifat, gyda ffocws ar adeiladu treftadaeth yng nghanol trefi gyda photensial ail-fuddsoddi, gan ddechrau gyda chynllun peilot yn Nhrefynwy ar gyfer tafarn neu westy 4-5* cymeriad boutique.

— **Cryfhau'r berthynas gyda darparwyr llety**
— Ffurfioli perthynas gyda pherchnogion blaenllaw cyfredol llety â gwasanaeth, drwy fodel rheoli cysylltiadau cwsmeriaid, gan gefnogi busnesau presennol i foderneiddio tra'n cynnal naws am le hyderus ac ymchwilio cyfleoedd ehangu ar gyfer patrymau.

— **Hyrwyddo arfer gorau** – Dathlu darparwyr lleol drwy farchnata cynnwys wedi'i dargedu wedi'i anelu at ddiwydiant a defnyddwyr.

— **Hyrwyddo tafarndai amlwg allweddol Sir Fynwy**
— Hyrwyddo cysyniad datblygiadau tafarndai Cymreig amlwg allweddol yng nghanol ein trefi marchnad, gan adeiladu ar ein traddodiadau a threftadaeth; canolfan gymunedol hwyliog a hamddenol yn arddangos bwydydd, diodydd, celf a chrefftau lleol; sbardun digwyddiadau lleol; man lle mae busnesau yn ymgasglu i drafod syniadau newydd; maes hyfforddiant ar gyfer sgiliau lletygarwch.

**Rolau a Chyfrifoldebau:**
Y sector preifat ond wedi'i hwyluso drwy ddull gweithredu strategol a rhagweithiol i ddynodi a denu buddsoddiad, dan arweiniad Cyngor Sir Fynwy ar y cyd gyda phartneriaid rhanbarthol a chenedlaethol eraill.

3

**Mwy o fynediad i gynnyrch lleol**

— **Hyrwyddo bwyd a diod lleol**
— Byddwn yn cydweithio gyda phartneriaid bwyd a diod Sir Fynwy i hyrwyddo cynnyrch lleol i'r diwydiant ymwelwyr, gan arddangos yr hyn sydd gan yr ardal i'w gynnig drwy farchnata cyrchfan.

— **Cefnogi celf a chrefft lleol** – Adeiladu cysylltiadau rhwng twristiaeth a'r diwydiannau creadigol, gan gynnig cyfleoedd i fusnesau arddangos a gwerthu celf a chrefft a chynnyrch lleol yn eu safleoedd.

— **Hyrwyddo cynnyrch bwyd a diod lleol a phrofiadau cysylltiedig** — Parhau i hyrwyddo bwyd a diod lleol ar draws pob sianel a gweithio gyda gwinllannoedd i gynnig gweithdai sommelier ar gyfer darparwyr lletygarwch i hyrwyddo gwinoedd lleol.

**Rolau a Chyfrifoldebau:**
Cyngor Sir Fynwy i hwyluso drwy raglenni bwyd a diod a diwylliannol/creadigol.

**Gyferbyn:**
**Gwesty'r Angel, y Fenni**







Bwthyn Abaty Tyndyrn.
Gwyliau godidog yn Fferm Wern-y-Cwm.
Gwinllan White Castle ger y Fenni, sydd wedi ennill Gwobr Gwinoedd Byd Decanter.



## GALLUOGWYR

1

MARCHNATA PARTNERIAETH

2

STRWYTHURAU CEFNOGI CRYF

3

CYFLENWI CYNALIADWY A CHYNHWYSOL

4

CREADIGRWYDD AC ARLOESEDD

# 1. MARCHNATA PARTNERIAETH

**Adfywio brand lle**
Byddwn yn gweithio gyda'n holl bartneriaid i gadw brand Sir Fynwy yn gyfoes a bywiog, gan fod yn rhagweithiol wrth herio canfyddiadau blinedig o'r ardal. Mae hynny'n golygu adfywio ein cynnwys yn barhaus i apelio i gynulleidfaoedd newydd ac iau gan ddod â'n cymunedau i ganol y stori. Byddwn hefyd yn dechrau adeiladu'r brand twristiaeth i frand lle ehangach fel y gellir hefyd ddefnyddio ein asedau i hyrwyddo mewnfuddsoddiad a thwf ehangach yn y sector.

**Brandio sy'n wynebu'r farchnad**
Byddwn yn hyblyg gyda brandio cyrchfan, gan hyrwyddo 'Sir Fynwy' mewn rhai cyd-destunau tra hefyd yn alinio'n hunain gyda brandiau cyrchfan eraill sy'n wynebu'r farchnad fel Dena a Gwy, Bannau Brycheiniog, lle'n briodol, fel a wnawn yn awr.

**Marchnata Defnyddwyr: cynnwys a dan arweiniad partner**
Bydd Cyngor Sir Fynwy yn parhau i chwarae rôl flaenllaw wrth farchnata'r gyrchfan, yn ogystal â defnyddio ein llwyfannau i roi gwybodaeth hanfodol i ymwelwyr a phreswylwyr sydd yn yr ardal eisoes. Mae hyn yn cynnwys parhau i gadw cronfa ddata gynnyrch gyfoethog o bopeth sydd gan yr ardal i'w gynnig ar ein gwefan. Drwy'r Cynllun hwn anelwn sicrhau cyllid ac adnoddau i gyflenwi ymgyrchoedd marchnata proffil uwch i ddenu pobl i aros yn hirach.

Byddwn hefyd yn parhau i weithio mewn partneriaeth i ehangu cyrraedd ac effaith ein gwaith, gan weithio gyda VisitBritain; Croeso Cymru; Twristiaeth De Cymru; Prifddinas Ranbarth Caerdydd; awdurdodau lleol cyfagos; partneriaethau rhanbarthol allweddol yn cynnwys partneriaeth Gororau Ymlaen, Partneriaeth Gwastadeddau Byw a Safle Treftadaeth Byd Tirlun Diwydiannol Blaenafon; Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog; Tirwedd Cenedlaethol Dyffryn Gwy; sefydliadau rheoli/marchnata cyrchfan a chymdeithasau twristiaeth yn yr ardal; cynghorau tref; a siambrau masnach – yn ogystal â busnesau a sefydliadau twristiaeth a lletygarwch, a chymunedau

Rydym eisiau annog cynifer o bobl ag sydd modd i wneud a rhannu cynnwys ansawdd uchel am ein cyrchfan a byddwn yn annog mwy o bobl leol a dylanwadwyr i fod yn greadigol drwy gystadlaethau ac arddangosfeydd. Byddwn yn rhannu mwy o gynnwys sy'n dathlu ardal unigryw y gororau a hunaniaeth Gymreig.

Byddwn yn parhau'n ystwyth ac arloesol a bydd y Bartneriaeth Rheoli Cyrchfannau yn sicrhau fod partneriaid yn gwybod am y tueddiadau marchnata digidol a chyfryngau cymdeithasol diweddaraf, yn cynnwys deallusrwydd artiffisial. Bydd bwrdd cynnwys golygyddol bach o bobl creadigol lleol a marchnatwyr yn dechrau ar y gwaith.

**Sioe Deithiol Diwydiant Croeso Cymru 2023.**
*© Hawlfraint y Goron.*





**B2B Marketing: profiadau y gellir eu harchebu ymlaen llaw**
Bydd Cyngor Sir Fynwy hefyd yn parhau i weithio gyda phartneriaid fel Croeso Cymru a Twristiaeth De Cymru i gefnogi'r diwydiant i ddatblygu a chreu profiadau y gellir eu harchebu ymlaen llaw a chanfod llwybrau i'r farchnad ar gyfer eu cynnyrch. Mae hyn yn cynnwys cydweithio gyda chanolwyr i ddosbarthu cynnyrch yn fwy eang ar ran yr ardal a gweithio'n uniongyrchol gyda gweithredwyr teithiau a'r farchnad fasnach. Caiff busnesau eu hannog i ddefnyddio sianeli archebu sy'n codi cyfradd comisiwn isel tebyg i TXGB i ostwng colli twristiaeth a chynyddu cyrraedd a'r gallu i archebu ymlaen llaw (e.e. i weithredwyr tramor drwy Visit Britain eShop). Caiff y potensial i dyfu'r farchnad gorfforaethol mewn cysylltiad ag ICC Cymru, Prifddinas Rhanbarth Cymru a Croeso Cymru hefyd ei ymchwilio.

**Datblygu profiad 'concierge' unedig**
Cyrchfan cymharol fach yw Sir Fynwy ac mae rhanddeiliaid yn teimlo'n gryf y gallwn sefyll allan oddi wrth y gweddill drwy gynnig profiad wedi ei guradu neu 'concierge' ansawdd uchel i'n gwesteion. Yn sylfaenol, nid yw hwn yn syniad technegol na chymhleth iawn i'w weithredu'n dda. Mae'r cyfan am i bob busnes lleol ddeall y cynnig yn drwyadl a bod yn weithgar wrth hyrwyddo ei gilydd. Felly, yn y dyfodol, byddwn yn cwrdd yn fwy rheolaidd, yn ymchwilio ac ymweld â'r hyn sy'n digwydd yn yr ardal ac yn rhagweithiol wrth gynnig syniadau a theithiau ar gyfer ein hymwelwyr – drwy sianeli marchnata, pecynnau croeso o fewn busnesau lleol ac argymhellion personol. Bydd partneriaid hefyd yn ymchwilio defnyddio deallusrwydd artiffisial i yrru gwasanaeth concierge WhatsApp ar gyfer ymwelwyr i'r ardal, gan eu galluogi i ymchwilio ac 'archebu wrth fynd'. Ar lefel cyrchfan ffisegol, deuir â'r cysyniad hwn yn fyw drwy well arwyddion a dehongli digidol mewn cymunedau, yn ddelfrydol, yn cysylltu'n ôl i'r un data sylfaen a chynnwys.

**Darparu ar gyfer preswylwyr**
Hanfod y Cynllun hwn yw cyflenwi profiad ymwelwyr ansawdd-uchel sydd hefyd yn dda i breswylwyr. Byddwn yn parhau i arwain y ffordd yng Nghymru drwy sicrhau nad yw ein marchnata 'twristiaeth' yn drafodiadol, a bod ein brand, ein cynnwys a'n llwyfannau yn darparu ar gyfer pobl leol ac y cânt eu creu ar y cyd gyda nhw. Bydd gennym rôl wrth gyflenwi cynnwys sy'n torri drwodd ar lwyfan y Deyrnas Unedig, gan ysgogi balchder dinesig yma adref.

**Marchogion yng Nghastell Cas-gwent.**
*© Hawlfraint y Goron.*



## 2. STRWYTHURAU CEFNOGI CRYF

**Adfywio Partneriaeth Rheoli Cyrchfannau**
Mae hwn yn Gynllun a gafodd ei greu gan Gyngor Sir Fynwy ac a gaiff ei lywio gan ddeallusrwydd helaeth o'r farchnad, gyda mewnbwn ystod eang o randdeiliaid allweddol. A chaiff ei gynllunio yn y pendraw i gael ei gyd-berchnogi gan ein partneriaid ac i ysbrydoli cydweithredu a chyd-greu. I gefnogi cyflenwi'r Cynllun, bydd Cyngor Sir Fynwy yn creu Partneriaeth Rheoli Cyrchfannau gryfach gyda'r grym ac adnoddau i wneud gwahaniaeth. Bydd y Bartneriaeth Rheoli Cyrchfannau yn cwrdd bob chwarter a chaiff ei chadeirio gan aelod o Gabinet Cyngor Sir Fynwy. Bydd yn cynnwys croestoriad o bartneriaid sector cyhoeddus, sector preifat a'r trydydd sector ac yn adrodd yn rheolaidd i Fforwm Twristiaeth De Ddwyrain Cymru. Caiff hyfforddiant a chyfleoedd datblygu eu darparu ar gyfer y grŵp, yn cynnwys teithiau dysgu.

**Cryfhau sefydliadau marchnata cyrchfannau, cymdeithasau twristiaeth a chwmnïau budd cymunedol**
Bydd Cyngor Sir Fynwy yn ymgysylltu yn rhagweithiol gyda chymdeithasau twristiaeth lleol, gan ddynodi ffyrdd i'w cefnogi – ac unrhyw sefydliadau newydd neu sy'n datblygu – i gynyddu eu cwmpas a'u heffaith. Y weledigaeth fydd ailgydbwyso'r model yn raddol, fel y daw'r Bartneriaeth Rheoli Cyrchfannau yn grŵp strategol, wedi'i seilio ar rwydwaith o gymdeithasau twristiaeth cryf yn goruchwylio cyflenwi'r Cynllun ar lefelau lleol erbyn 2030.

**Ymgysylltu â threfi a chymunedau**
Bydd tîm twristiaeth Cyngor Sir Fynwy hefyd yn cwrdd yn rheolaidd gyda chynghorau tref: caiff hyn ei integreiddio i'r strwythurau cyfarfodydd a fforymau creu lle presennol. Caiff cynghorau tref hefyd eu gwahodd i gyfarfodydd y Bartneriaeth Rheoli Cyrchfannau.

**Perthynas traws-sector**
Fel yr amlinellwyd, bydd Cyngor Sir Fynwy yn arwain y gwaith o gryfhau partneriaethau o fewn sectorau cyfagos, gan adeiladu ar y gwaith da a gyflawnwyd gyda bwyd a diod yn y sir. Byddwn yn sefydlu cysylltiadau newydd gyda'r sector diwydiannau creadigol ar lefel sirol a rhanbarthol i ymchwilio hyrwyddo lleoliad ffilmiau a theledu a chyfleoedd strategol ehangach yn gysylltiedig â'r economi profiad.

**Cymorth busnes a datblygu sgiliau**
Caiff gwasanaethau cymorth busnes eu hyrwyddo i'r sector twristiaeth, yn cynnwys darpariaeth Cyngor Sir Fynwy. Byddwn yn parhau i ymchwilio cyfleoedd ar gyfer partneriaid sgiliau, tebyg i ddarparwyr addysgol lleol, i ddatblygu'r gweithlu lletygarwch yn ogystal â sgyrsiau a chyflwyniadau mewn ysgolion gan ein harweinwyr diwydiant.

**Wales Perfumery ger Trefynwy.**



## 3. CYFLENWI CYNALIADWY A CHYNHWYSOL

**Twristiaeth cenedlaethau'r dyfodol**
Bydd Cyngor Sir Fynwy yn gweithio gyda chydweithwyr ym maes addysg a gweithwyr ieuenctid i gymryd rhan yn y fforymau ieuenctid presennol i gasglu barn cenedlaethau'r dyfodol a datblygu sector sy'n rhoi'r lle blaenllaw i'w gofynion.

**Perchnogaeth gymunedol**
Mae sicrhau ymagwedd dan arweiniad y gymuned at dwf twristiaeth a datblygu wrth galon y Cynllun hwn. Bydd cymunedau yn cymryd rhan wrth ei gyflenwi'n barhaus a byddir yn olrhain teimladau cymunedau yn agos yn y dyfodol i sicrhau y caiff heriau eu mapio, eu deall a'u lliniaru'n gywir.

**Rheoli'r amgylchedd**
Bydd twristiaeth yn parhau i gael ei ystyried mewn cyfarfodydd partneriaeth amgylcheddol cyfredol, a chymerir mesurau i unioni unrhyw dueddiadau negyddol, fel sy'n briodol, yn seiliedig ar ddata a dirnadaeth.

**Croeso cynhwysol**
Bydd holl bartneriaid y sector cyhoeddus yn sicrhau fod ein sianeli yn hygyrch a chynhwysol a byddwn yn gweithio gyda'r diwydiant i ddatblygu a chyllido buddsoddiadau i sicrhau fod ein lleoliadau, atyniadau, digwyddiadau a seilwaith ymwelwyr yn hygyrch – yn gorfforol, o ran y cynnig cynnyrch, a'r ffordd y cânt eu hyrwyddo.

**Cyflenwi a arweinir gan y data**
Fel yr amlinellir, caiff dulliau newydd eu defnyddio i gasglu a chydlynu data ar draws ystod eang o gyrchfannau, o ddefnyddio technoleg clyfar o fewn cyrchfannau i ddefnyddio deallusrwydd artiffisial i ddehongli a blaenoriaethu canfyddiadau data. Bydd y Cynllun ei hun yn parhau'n ystwyth ac yn ymatebol i'r wybodaeth hon.

**Cadeiriau olwyn addas ar gyfer pob math o dir yn Whitestone.**
*Tirwedd Cenedlaethol Dyffryn Gwy.*



# 4. CREADIGRWYDD A GWREIDDIOLDEB

**Cydweithio creadigol**

Mae stori Sir Fynwy fel man o ysbrydoliaeth greadigol ar gyfer beirdd, cerddorion a chynhyrchwyr teledu byd-enwog bron heb ei gyffwrdd. Rydym eisiau dod â'r stori honno yn fyw, arddangos ein creadigrwydd yn ein cymunedau a pharhau i wneud celf. Fel yr amlinellwyd, byddwn felly yn gwneud mwy erbyn 2030 i greu profiadau sy'n arddangos dylanwad ein hardal ar gelf a diwylliant.

Byddwn yn creu cysylltiadau newydd gyda phartneriaid yn y sector diwydiannau creadigol a chyrff diwylliannol lleol i ymchwilio cyfleoedd i gydweithio a dod â mwy o gelf i'n busnesau twristiaeth. Bydd hyn yn cynnwys gweithio o fewn Cyngor Sir Fynwy i gyflenwi strategaeth ddiwylliannol ar gyfer ein sir sy'n adlewyrchu uchelgais y Cynllun hwn.

Byddwn hefyd yn gwneud mwy i gynnwys y gymuned greadigol leol mewn gweithgaredd marchnata cyrchfannau – gan ddefnyddio cerddoriaeth a gynhyrchwyd yn lleol mewn cynnwys ffilm, darlunwyr lleol i greu celfweithiau ac yn y blaen.

Yn olaf, byddwn yn parhau i ymchwilio'r ffordd y mae cymunedau gwledig eraill wedi defnyddio creadigrwydd i newid eu cynigion, gan ddod ag enghreifftiau o arfer da i'r Bartneriaeth Rheoli Cyrchfannau.





**Gardd Cerfluniau Dyffryn Gwy.** *Gemma Kate Wood.*
**Fforio bwyd yn y Fenni.** © *Hawlfraint y Goron.*
**Gŵyl Gerdd Castell Roc yng Nghastell Cas-gwent.** *Castell Roc.*






64

# GALL LLEOEDD GWYCH I YMWELD Â NHW WNEUD LLEOEDD GWYCH I FYW YNDDYNT.

Caiff profiadau cyrchfannau rhagorol eu hadeiladu gan wneuthurwyr polisi, arweinwyr diwydiant, cyrff trydydd sector a chymunedau lleol yn cydweithio mewn ffyrdd sy'n adfywio, yn edrych ar i faes ac yn greadigol.

Sir Fynwy yw man geni twristiaeth Prydain. Dyma ein cyfle i ddod at ein gilydd i wneud i'n cyrchfan sefyll allan eto fel y lle mwyaf ysbrydoledig a chroesawgar yng Nghymru i aros, buddsoddi a byw ynddo.

**GADEWCH I NI FYND ATI I WEITHIO.**



*Look at the stars*
*Look how they shine for you*
*And everything you do*
*Yeah, they were all yellow*

Coldplay, Yellow – a ysgrifennwyd ar noson serog yn ystod sesiynau recordio'r band yn Stiwdios Rockfield, 1999.

Awyr Dywyll Sir Fynwy ym Mhriordy Llanddewi Nant Hodni.
*Alyn Wallace.*

monmouthshire
sir fynwy

visitmonmouthshire
ymwelwch â sir fynwy